# Atebion a roddwyd i Aelodau ar 25 Mehefin 2007

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros y Gyllideb a Rheoli Busnes

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

6 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros y Gyllideb a Rheoli Busnes

**Nerys Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog esbonio ar beth y mae'r Llywodraeth yn bwriadu gwario'r £3m ychwanegol a ddarparwyd gan y Canghellor yn ddiweddar? (WAQ50063)

**Y Gweinidog dros y Gyllideb a Rheoli Busnes (Jane Hutt):** Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb i WAQ50051 ar 20 Mehefin.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Jonathan Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa gefnogaeth fydd y Gweinidog yn ei ddarparu i adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol sy'n wynebu gorwariant? (WAQ50059)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Caiff y rhan helaethaf o wariant gwasanaethau cymdeithasol ei ariannu drwy'r setliad refeniw heb ei neilltuo, y dreth gyngor a thaliadau ar wahân i grant penodol. Mae hyn yn rhoi'r hyblygrwydd i gynghorau osod eu blaenoriaethau gwario eu hunain a rheoli'r pwysau yn ystod y flwyddyn fel y gwelant yn addas, o fewn eu rhwymedigaethau cyfreithiol.

**Jonathan Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa gefnogaeth fydd y Gweinidog yn ei ddarparu i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG sy'n wynebu gorwariant yng Nghymru? (WAQ50060)

**Jonathan Morgan (Gogledd Caerdydd):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad o wargedion a diffygion cyllidebau Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yn ystod y flwyddyn ariannol hon? (WAQ50062)

**Edwina Hart:** Ni fydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu cymorth adnoddau i sefydliadau sydd mewn diffyg ariannol yn ystod 2007-08.

Dengys y ffurflenni diweddaraf o'r Swyddfeydd Rhanbarthol bod sefydliadau yng Nghymru yn rhagweld cyfanswm diffygion o £34m yn 2007-08. Dangosir y manylion fesul cymuned iechyd isod:

| Cymuned | Diffyg a Ragwelir £m |
|---|---:|
| Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru | 2 |
| Gogledd-ddwyrain Cymru | 3 |
| BILl Caerdydd | 3 |
| Ceredigion | 2 |
| Sir Gaerfyrddin | 7 |
| Abertawe | 14 |
| Powys | 3 |
| **CYFANSWM** | **34** |

O'r cyfanswm diffyg o £34m a ragwelir, dim ond y diffyg o £2m a ragwelir gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru sydd wedi ei dderbyn yn ffurfiol mewn cynllun adfer gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

**Jonathan Morgan (Gogledd Caerdydd):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion gorwariant/tanwariant adran Gwasanaethau Cymdeithasol pob awdurdod lleol yng Nghymru yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, y mae ffigurau ar gael ar eu cyfer? (WAQ50061)

**Edwina Hart:** Mae'r tabl canlynol yn nodi cyllideb gychwynnol y gwasanaethau cymdeithasol a osodwyd gan bob awdurdod lleol yn 2005-6 (y wybodaeth lawn ddiweddaraf sydd ar gael) a'r canlyniadau a adroddwyd. Ni fydd y ffigur cyllideb cychwynnol wedi ystyried unrhyw grantiau uniongyrchol a gyhoeddwyd ar ôl gosod y gyllideb, nac unrhyw newidiadau yn y penderfyniadau ar ddefnyddio arian wrth gefn i ariannu'r gwasanaethau, ond bydd y ffigur terfynol yn adlewyrchu'r gwariant llawn gan gynnwys unrhyw grantiau uniongyrchol o'r fath a newidiadau yn y defnydd o arian wrth gefn.

**Gwariant terfynol refeniw awdurdodau lleol ar wasanaethau cymdeithasol, 2005-06**

| Awdurdod Lleol | Cyllideb Gwasanaethau Cymdeithasol £ Miliwn | Canlyniadau a Adroddwyd £ Miliwn | Gwahaniaeth | % |
|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 26.5 | 27.7 | 1.2 | 5 |
| Gwynedd | 44.8 | 45.9 | 1.1 | 2 |
| Conwy | 49.4 | 49.9 | 0.5 | 1 |
| Sir Ddinbych | 42.1 | 42.1 | 0.0 | 0 |
| Sir y Fflint | 49.9 | 50.0 | 0.1 | 0 |
| Wrecsam | 46.5 | 46.5 | 0.0 | 0 |
| Powys | 45.8 | 46.6 | 0.7 | 2 |
| Ceredigion | 27.2 | 29.5 | 2.3 | 9 |
| Sir Benfro | 36.6 | 37.9 | 1.3 | 4 |
| Sir Gaerfyrddin | 61.6 | 65.3 | 3.7 | 6 |
| Abertawe | 84.1 | 83.6 | - 0.5 | - 1 |
| Castell-nedd Port Talbot | 57.8 | 59.9 | 2.0 | 3 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 50.9 | 51.9 | 1.0 | 2 |
| Bro Morgannwg | 40.9 | 46.4 | 5.5 | 13 |
| Rhondda Cynon Taf | 100.2 | 107.5 | 7.3 | 7 |
| Merthyr Tudful | 23.2 | 25.1 | 2.0 | 9 |
| Caerffili | 65.1 | 70.8 | 5.7 | 9 |
| Blaenau Gwent | 31.1 | 31.0 | - 0.1 | 0 |
| Tor-faen | 34.5 | 36.9 | 2.5 | 7 |
| Sir Fynwy | 30.7 | 29.3 | - 1.4 | - 5 |
| Casnewydd | 52.3 | 57.8 | 5.5 | 11 |
| Caerdydd | 113.2 | 122.8 | 9.6 | 9 |
| **Cymru** | **1,114.5** | **1,164.7** | **50.2** | **5** |

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Gweinidog nodi nifer y diswyddiadau a wnaed gan y gwasanaeth Hylendid Cig ym mhob blwyddyn er 1999, y costau cysylltiedig, a'r rhesymau dros y diswyddiadau? (WAQ50065)

**Edwina Hart:** Caiff nifer y staff a ddiswyddwyd gan y Gwasanaeth Hylendid Cig ers 1 Ebrill 1999, a'r taliadau a wnaed i'r aelodau hynny o staff, eu nodi yn y tabl isod:

| | **1999-2000** | | **2000-01** | | **2001-02** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Y Rheswm dros Adael** | **Nifer y staff** | **Costau** | **Nifer y staff** | **Costau** | **Nifer y staff** | **Costau** |
| **Diswyddiadau - Gorfodol** | | | | | | |
| Staff Gweithrediadol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Staff Anweithredol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| **Diswyddiadau - Gwirfoddol** | | | | | | |
| Staff Gweithrediadol | 5 | 10719.89 | 8 | 29463.42 | 1 | 0 |
| Staff Anweithredol | 8 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **13** | **10719.89** | **8** | **29463.42** | **1** | **0** |
| **Ymddeoli yn Gynnar** | | | | | | |
| Staff Gweithrediadol | 0 | 0 | 1 | 4690.21 | 0 | 0 |
| Staff Anweithredol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **0** | **0** | **1** | **4690.21** | **0** | **0** |
| | | | | | | |
| **Cyfanswm llawn** | **13** | **10719.89** | **9** | **34153.63** | **1** | **0** |

| | **2002-03** | | **2003-04** | | **2004-05** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Y Rheswm dros Adael** | **Nifer y staff** | **Costau** | **Nifer y staff** | **Costau** | **Nifer y staff** | **Costau** |
| **Diswyddiadau - Gorfodol** | | | | | | |
| Staff Gweithrediadol | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 4823.57 |
| Staff Anweithredol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **0** | **0** | **0** | **0** | **2** | **4823.57** |
| **Diswyddiadau - Gwirfoddol** | | | | | | |
| Staff Gweithrediadol | 0 | 0 | 2 | 51075.57 | 2 | 16469.06 |
| Staff Anweithredol | 1 | 3345.92 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **1** | **3345.92** | **2** | **51075.57** | **2** | **16469.06** |
| **Ymddeoliad Cynnar** | | | | | | |
| Staff Gweithrediadol | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 13459.65 |
| Staff Anweithredol | 0 | | 1 | 6411 | 4 | 72286.37 |
| **Cyfanswm** | **0** | **0** | **1** | **6411** | **5** | **85746.02** |
| | | | | | | |
| **Cyfanswm llawn** | **1** | **3345.92** | **3** | **57486.57** | **9** | **107038.65** |

| | **2005-06** | | **2006-07** | |
|---|---|---|---|---|
| **Y Rheswm dros Adael** | **Nifer y staff** | **Costau** | **Nifer y staff** | **Costau** |
| **Diswyddiadau - Gorfodol** | | | | |
| Staff Gweithrediadol | 8 | 72866.45 | 1 | 10556.97 |
| Staff Anweithredol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **8** | **72866.45** | **1** | **10556.97** |
| **Diswyddiadau - Gwirfoddol** | | | | |
| Staff Gweithrediadol | 3 | 33846.95 | 26 | 199948.3 |
| Staff Anweithredol | 1 | 10592.92 | 1 | 24432.03 |
| **Cyfanswm** | **4** | **44439.87** | **27** | **224380.32** |
| **Ymddeoliad Cynnar** | | | | |
| Staff Gweithrediadol | 0 | 0 | 1 | 11495.42 |
| Staff Anweithredol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **0** | **0** | **1** | **11495.42** |
| | | | | |
| **Cyfanswm llawn** | **12** | **117306.32** | **29** | **246432.71** |

| | **Cyfansymiau** | |
|---|---|---|
| **Y Rheswm dros Adael** | **Nifer y staff** | **Costau** |
| **Diswyddiadau - Gorfodol** | | |
| Staff Gweithrediadol | 11 | 88246.99 |
| Staff Anweithredol | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | 11 | 88246.99 |
| **Diswyddiadau - Gwirfoddol** | | |

| | | |
|---|---|---|
| Staff Gweithrediadol | 47 | 341523.18 |
| Staff Anweithredol | 11 | 38370.87 |
| **Cyfanswm** | 58 | 379894.05 |
| **Ymddeoliad Cynnar** | | |
| Staff Gweithrediadol | 3 | 29645.28 |
| Staff Anweithredol | 5 | 78697.37 |
| **Cyfanswm** | 8 | 108342.65 |
| | | |
| **Cyfanswm llawn** | **77** | **576483.69** |

Drwy arolygu, dilysu, archwilio a gorfodi gofynion deddfwriaethol, mae'r Gwasanaeth Hylendid Cig yn gyfrifol am sicrhau bod Gweithredwyr Busnesau Bwyd yn cyflawni eu cyfrifoldebau o ran cynhyrchu bwyd diogel a diogelu iechyd a lles anifeiliaid mewn sefydliadau cig cymeradwy ym Mhrydain Fawr (gan gynnwys lladd-dai a gweithfeydd torri cig). Mae'r Gwasanaeth Hylendid Cig yn gweithredu o fewn cyd-destun deddfwriaethol sy'n ei gwneud yn ofynnol bod ei staff yn bresennol mewn lladd-dai yn barhaus yn ystod y broses o gynhyrchu cig.

Mae lefelau staffio gweithredol y Gwasanaeth Hylendid Cig mewn lladd-dai yn seiliedig ar yr oriau gweithredu a chyflymder y llinell ladd. Mae gan y Gwasanaeth Hylendid Cig weithdrefn a phroses y cytunwyd arni ar gyfer ymdrin â sefyllfaoedd o ddiswyddiadau a allai godi. Effeithir ar y sefyllfaoedd hyn yn bennaf oherwydd cau lladd-dai neu leihad yn nifer yr oriau gweithredu neu'r cyflymder, gan arwain at yr angen am lai o staff o fewn y Gwasanaeth Hylendid Cig. Lle bynnag y mae'n bosibl, mae'r Gwasanaeth Hylendid Cig yn gweithredu'r gostyngiad yn y lefelau staffio drwy chwilio am ddiswyddiadau gwirfoddol o fewn ardal ddaearyddol lleoliad y gwaith neu'r gweithfeydd dan sylw. Mae'r dull hwn fel arfer yn osgoi'r angen am ddiswyddiadau gorfodol, ar yr amod bod y staff sy'n wynebu risg o ddiswyddo yn derbyn y cyfleoedd adleoli a gaiff eu creu mewn ardaloedd eraill.
Cafodd nifer o staff rheoli anweithredol eu diswyddo yn 2003-04 a 2004-05 o ganlyniad i weithredu rhaglen o newid o fewn sefydliad.

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Gweinidog nodi faint o arian a wariwyd ar weithwyr contract darpariaeth llinell flaen gan y Gwasanaeth Hylendid Cig ym mhob blwyddyn er 1999? (WAQ50066)

**Edwina Hart:** Gwariant y Gwasanaeth Hylendid Cig ar Arolygwyr Hylendid Cig a Milfeddygon Swyddogol ar gontract ar gyfer y blynyddoedd ariannol o 1999-2000 i 2006-07 yw:

| **1999-2000** | **2000-01** | **2001-02** | **2002-03** | **2003-04** | **2004-05** | **2005-06** | **2006-07** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| 16,272 | 17,221 | 25,460 | 26,151 | 24,197 | 23,681 | 26,421 | 29,460 |

Mae'r Gwasanaeth Hylendid Cig yn defnyddio gwasanaethau Milfeddygol Swyddogol ar gontract ac Arolygwyr Hylendid Cig ar gontract mewn safleoedd trwyddedig. Hyd at 2004-5 roedd y rhan fwyaf o'r costau yn ymwneud â milfeddygon swyddogol ar gontract.

Mae'r cynnydd sylweddol yn lefel y gwariant yn 2001/02 a thu hwnt yn ymwneud â'r gofyniad i weithredu goruchwyliaeth Filfeddyg Swyddogol llawn amser o ladd-dai trwyddedig sy'n lladd ac yn prosesu o 1 Ebrill 2001. Roedd hyn yn ofynnol er mwyn cydymffurfio â chyfarwyddebau Hylendid Cig y Comisiwn Ewropeaidd.

Mae'r cynnydd sylweddol pellach mewn gwariant o 2005-06 yn ymwneud â'r ffaith bod y Rheol Dros Dri Deg Mis Oed wedi cael ei disodli gan system newydd o brofi BSE mewn gwartheg Dros Dri Deg Mis Oed sydd i'w bwyta gan bobl a ddaeth yn weithredol o 7 Tachwedd 2005. Arweiniodd y newid hwn at yr angen i'r Gwasanaeth Hylendid Cig gontractio gwasanaethau Arolygwyr Hylendid Cig ychwanegol i

ddiwallu anghenion posibl lladd-dai cig coch fyddai am ladd gwartheg Dros Dri Deg Mis Oed ar gyfer y gadwyn fwyd ddynol.

*O dan y Rheol Dros Dri Deg Mis Oed, ni fyddai'n gyfreithiol bosibl i gig o wartheg dros 30 mis oed, gyda rhai eithriadau prin iawn, gael eu gwerthu i'w bwyta gan bobl yn y DU. Cyflwynwyd y Rheol Dros Dri Deg Mis Oed yn 1996 fel mesur diogelu rhag BSE er mwyn rhwystro gwartheg hŷn rhag cael eu cyflwyno i'r gadwyn fwyd.

**Jonathan Morgan (Gogledd Caerdydd):** Beth yw cyflog cychwynnol cyfartalog ymgynghorydd GIG yng Nghymru yn ôl cofnodion adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y Cynulliad? (WAQ50091)

**Jonathan Morgan (Gogledd Caerdydd):** Beth yw cyflog cychwynnol cyfartalog Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru yn ôl cofnodion adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y Cynulliad? (WAQ50092)

**Jonathan Morgan (Gogledd Caerdydd):** Beth yw cyflog cychwynnol cyfartalog Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru yn ôl cofnodion adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y Cynulliad? (WAQ50093)

**Jonathan Morgan (Gogledd Caerdydd):** Beth yw cyflog cychwynnol cyfartalog deintydd GIG yng Nghymru yn ôl cofnodion adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y Cynulliad? (WAQ50094)

**Jonathan Morgan (Gogledd Caerdydd):** Beth yw cyflog cychwynnol cyfartalog meddyg teulu GIG yng Nghymru yn ôl cofnodion adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y Cynulliad? (WAQ50095)

**Edwina Hart:** Nid yw'r wybodaeth hon ar gael yn ganolog.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Sawl cais am drwydded a (a) dderbyniwyd, a (b) a wrthodwyd ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru ar gyfer siopau cludfwyd ers dechrau Deddf Trwyddedu 2003? (WAQ50067)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Sawl cais am drwydded a (a) dderbyniwyd, a (b) a wrthodwyd ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru ar gyfer tafarndai ers dechrau Deddf Trwyddedu 2003? (WAQ50068)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Sawl cais am drwydded a (a) dderbyniwyd, a (b) a wrthodwyd ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru ar gyfer clybiau ers dechrau Deddf Trwyddedu 2003? (WAQ50069)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Sawl cais am drwydded a (a) dderbyniwyd, a (b) a wrthodwyd ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru ar gyfer clybiau rhwng 1999 a dechrau Deddf Trwyddedu 2003? (WAQ50070)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Sawl cais am drwydded a (a) dderbyniwyd, a (b) a wrthodwyd ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru ar gyfer tafarndai rhwng 1999 a dechrau Deddf Trwyddedu 2003? (WAQ50071)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Sawl cais am drwydded a (a) dderbyniwyd, a (b) a wrthodwyd ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru ar gyfer siopau cludfwyd rhwng 1999 a dechrau Deddf Trwyddedu 2003? (WAQ50072)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Sawl cais am drwydded a dderbyniwyd ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru ar gyfer siopau cludfwyd yn groes i gyngor yr heddlu ers dechrau Deddf Trwyddedu 2003? (WAQ50073)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Sawl cais am drwydded a dderbyniwyd ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru ar gyfer tafarndai yn groes i gyngor yr heddlu ers dechrau Deddf Trwyddedu 2003? (WAQ50074)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Sawl cais am drwydded a dderbyniwyd ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru ar gyfer clybiau yn groes i gyngor yr heddlu ers dechrau'r Ddeddf Trwyddedu? (WAQ50075)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Pa ganran y ceisiadau am drwydded a dderbyniwyd ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru ar gyfer clybiau yn groes i gyngor yr heddlu ers dechrau Deddf Trwyddedu 2003? (WAQ50076)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Pa ganran y ceisiadau am drwydded a dderbyniwyd ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru ar gyfer tafarndai yn groes i gyngor yr heddlu ers dechrau'r Ddeddf Trwyddedu? (WAQ50077)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Pa ganran y ceisiadau am drwydded a dderbyniwyd ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru ar gyfer siopau cludfwyd yn groes i gyngor yr heddlu ers dechrau Deddf Trwyddedu 2003? (WAQ50078)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus (Andrew Davies):** Nid yw Deddf Trwyddedu 2003 wedi'i datganoli i Lywodraeth Cynulliad Cymru a mater i Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Llywodraeth y DU ydyw. Bydd yr Adran yn cyhoeddi ystadegau ar geisiadau trwyddedu maes o law ond ar hyn o bryd nid oes ffigurau ar gael.